

# Cyngor Cymuned Pennal

## Pennal Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn y Ganolfan Tachwedd 27ain 2020 am 6.30

Trafod Cofnodion

BDO Talwyd £414-60 tal 17-18.

Derbyniwyd cais eto gan BDO I arddangos rhybudd archwilio y Cyhoedd oherwydd bod y ddyddiad or gwreiddiol ddiwrnod yn fyr,ail ddangoswyd y rhain hyd Rhagfyr 2ed 2020.

Penodi Presept 2021 -2022 wedi trafod cynigiodd Aled Rees ein bod yn cadw y presept yr un fath £6.320 eiliwyd gan James Brunton.roedd pawb yn gytun bydd trafod pellach ar y gyllideb yn ein pwyllgor nesa

Coeden Cherry ger yr afon Diolchwyd i Grace Crab am ymwneud ar gwaith mor sydyn a hefyd i Barry Wyn Griffiths a Keneth Griffiths am glerio o gwmpas yr afon .

Pwyntiau wedi pasio i Cyngor Gwynedd

Trafododd y Clerc a Mr Sion Wilkes ac mae wedi ymdrin ar problemau isod  
1 Sietyn Tainewyddion Sion Wilkes wedi cwrddyd a Mr Ross i gael y sietyn wedi ei thorri .

2 Trafod ffordd Felindre rhwystradigaeth lorriau mawr i ymgymryd ar gornel .angen arbed mynd i ben y palmant i droi y gornel cysylltwyd a Heddlu Gogledd Cymru ond ni allant wneud dim gan nad oedd rhwystrau ar y ffordd a hefyd nid oedd cwyn wedi eu dderbyn oddiwrth berchnogion y lorriau byddair Cyngor yn ymgymryd i gysylltu ar perchnoion .

Gofynwyd am enw y Plismon Cymunedol ond nid oedd y swyddog yn gwybod lle oedd Pennal na pwy oedd yn gofalu dros ardal Pennal a Chwrt y bwriad oedd i gael cymorth gan fo neu hi i helpu ddatrys y broblem hon.

3 Datrys parcio ger Rhys Terras cafodd y mater ei basion mlaen i adran Comisynydd Traffic.

Bagiau swnd atal llifogydd. gofynwyd i William Rees edrych am y rhain eto.

### Pension Regulator

Derbyniwyd llythyr gan y Pension Regulator byddair llythyr yn cael ei anfon at y Cyfrifydd Elisabeth Owen Dolgellau.

### Coeden Nadolig

Deallwyd bod syniad o gael coeden Nadolig ir pentre wedi ei dderbyn fel rhan o fenter Patneriaeth Pennal mae Heather Mitchell swyddog y broject wedi dewis y goeden o Blanhigfa Dingles Trallwng am £150 maint o 15eg troedfedd maer goeden ai gwraidd yn cael eu plannu ar dir y Cyngor ar y Marian ac fe fydd yn cael eu addurno gyda goleuadau wedi eu noddi gan Bwyllgor Sioe Pennal mae ein Diolch yn fawr iawn i Heather ar batneriaeth Alwyn Rees, a Pwyllgor y Sioe.

Coeden sydd yn barod ar y Marian Byddair cadeirydd yn cael gwybodaeth bellach. ac yn cael eu thacluso ermyn gofal y cyhoedd.

### Hen Fynwent yr Eglwys.

Trafodwyd pwy sydd yn gyfrifol am Fynwent yr Eglwys bellach. ag ydi hi yn dal ar agor.mae trafodeithau wedi cymryd lle ar syniad ermwyn y pentref ai chadw yn daclus ydi ir Cyngor Cymuned eu chymryd drosodd a gofalu am dani ond cyn medr gwneud hyn mae llawer o bethau yn glwm ar fynwent angen eu datrys mae un peth yn sicr dydir gronfa a godwyd i ofalu am y fynwent ddim yna mwyach I wneud hyn.

Derbyniwyd llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri yn ein hysbysu o grantiau sydd ar gael i brosiectau o fewn y gymuned pasiwyd y wybodaeth i bwyllgor y Ganolfan Gymunedol .

### Sul y Cofio

Mae angen diolch ir cadeirydd am fynychu y cyfarfod Sul y cofio a drefnwyd gan Hugh Ramsbotham ar ran yr Eglwys yn y pentref o dan rheolau Covid.

